Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Date Not Specified

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Fforwm Mynediad Lleol

**Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2023 at 2.00 pm,**
**Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**

## AGENDA

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

.

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| **1.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Cyflwyniadau** | |
| **2.** | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| **3.** | **Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2023** | 1 - 6 |
| **4.** | **Llwybrau a Thrywyddau Dyffryn Gwy Isaf (Adroddiad ynghlwm)** | 7 - 12 |
| | a) Dogfen Cwestiynau Cyffredin (wedi ei hatodi) | |
| | b) Cyflwyniad gan Richard Dickenson, 'Tomorrow's Tourism' | |
| **5.** | **Diweddariadau Mynediad i Gefn Gwlad** | 13 - 18 |
| **6.** | **Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus drafft ar Reolaethau Cŵn yn Sir Fynwy**<br><br>Dolen ymgynghori: [https://www.monmouthshire.gov.uk/pspo-dog-controls/](https://www.monmouthshire.gov.uk/pspo-dog-controls/) | |
| **7.** | **Diweddariadau Cyfoeth Naturiol Cymru (Bob Campbell, Uwch Swyddog Rheoli Tir, Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru)** | |
| **8.** | **Diwedd cyfnod y fforwm presennol a recriwtio fforwm newydd** | |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

A.Fairey
J. Askew
Sara Burch
J. Cockitt
G. Davies
S. Fowles
S. Hampshire
T. Hook
I.Brooke
S. Lewis
P. Mundell
D. Smith
M. Storey
M. Sweeney
Underwood

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

### Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

### Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.